

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Cynnwys

Ein gweledigaeth	3
Llyfrgelloedd yn Sir Ddinbych	4
Ystadegau allweddol 2018-19	4
Cyd-destun strategol	6
Ein meysydd strategol allweddol	8
Mae bywydau pobl yn cael eu cyfoethogi a'u llywio gan ddarllen	8
Gall pobl gael gafael ar yr adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i fyw'n dda	9
Gall pobl ddefnyddio gwasanaethau digidol a meddu ar y sgiliau a'r hyder i wneud hynny	10
Gall pobl gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau yn lleol	11
Gall pobl gymryd rhan mewn diwylliant lleol bywiog	12
Sut byddwn yn cflawni'r canlyniadau hyn:	13
Sut byddwn yn adrodd ar ein perfformiad a'n cynnydd?	16

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yn Sir Ddinbych a'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni yn y tair blynedd nesaf. Bydd hefyd yn dangos sut mae ein llyfrgelloedd yn cyfrannu at nodau a chynlluniau strategol lleol a chenedlaethol.

Ein gweledigaeth

Credwn mai llyfrgelloedd yw curiad calon y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu - lleoedd niwtral, dibynadwy lle mae croeso i bawb waeth beth fo'u hoedran, cefndir, neu amgylchiadau ariannol.

Credwn fod darllen yn hanfodol i les, dysgu a ffyniant pawb, a bod llyfrgelloedd yn rhoi mynediad i bawb at y sgiliau a'r adnoddau darllen a llythrennedd sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu hanghenion.

Credwn fod gan bawb hawl i gael gafael ar wybodaeth a gwybodaeth yn ei holl ffurfiau - print, digidol a dynol - a rôl llyfrgelloedd yw helpu pobl i gael mynediad i'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu'n llawn â bywyd modern.

Fel gwasanaeth, ein nod yw datblygu, cyflwyno a hyrwyddo'r profiad gorau i gwsmeriaid trwy fod yn ddewr, yn greadigol ac wedi ymrwymo i ragoriaeth.

Dyfyniad

“Mae llyfrgell yng nghanol cymuned yn groes rhwng allanfa argyfwng, rafft bywyd a gŵyl. Maent yn gadeirlanau'r meddwl; ysbytai'r enaid; parciau thema'r dychymyg. Ar ynys glawog oer, hwy yw'r unig fannau cyhoeddus cysgodol lle nad ydych chi'n ddefnyddiwr, ond yn ddinesydd.”

Caitlin Moran

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Llyfrgelloedd yn Sir Ddinbych

Mae llyfrgelloedd yn Sir Ddinbych yn darparu'r gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus statudol a'r gwasanaeth wyneb yn wyneb ar gyfer cwsmeriaid ar ran y Cyngor o wyth llyfrgell yn y Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen. Mae Gwasanaeth Llyfrgell Gartref yn darparu gwasanaeth wedi'i deilwra i bobl nad ydynt yn gallu cael mynediad i'w llyfrgell leol oherwydd gwendid, anabledd neu gyfrifoldebau gofalu. Mae llyfrgelloedd hefyd yn darparu gwasanaeth digidol 24/7 ar gyfer lawrlwytho llyfrau, cael gafael ar wybodaeth ac archebu llyfrau corfforol; a darparu cyfleusterau i bobl gael mynediad at ystod o wasanaethau cymorth a chyngor yn eu cymuned leol.

Rheolir llyfrgelloedd o fewn Gwasanaeth Cymunedau a Chwsmeriaid y Cyngor.

Ystadegau allweddol 2018-19

401,234 o ymweliadau corfforol â llyfrgelloedd (8^{fed} safle yng Nghymru)

125,454 o ymweliadau rhithiol i'r wefan (6^{ed} safle yng Nghymru)

356,050 o eitemau wedi eu benthyg (gan gynnwys lawrlwythiadau digidol)

53,691 defnydd o gyfrifiaduron

51,192 o bobl wedi mynychu 4,414 o weithgareddau

41,225 o bobl wedi cael cymorth i ddefnyddio cyfrifiaduron a mynd ar lein (safle 1^{af} yng Nghymru)

19.2% o'r boblogaeth yn ddefnyddwyr gweithgar (y % uchaf yng Ngogledd Cymru, 5^{ed} safle yng Nghymru)

29.5% o blant 4-12 oed wedi cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf 2018 (safle 1^{af} yng Nghymru, cyfartaledd Cymru 11.5%)

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Cost y gwasanaeth

Cyfanswm cost darparu'r Gwasanaeth Llyfrgell yn 2018-19 oedd £1,549,135, gyda £197,792 yn gost cynnal yr wyth adeilad llyfrgell.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn costio £16.27 y pen i bob oedolyn a phlentyn sy'n byw yn Sir Ddinbych

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi 35 o staff (cyfwerth llawn amser neu FTE)

Y gost fesul ymweliad llyfrgell oedd £2.94

Fe gyfrodd astudiaeth yn 2013 yn Nghymru, a gomisiynwyd gan ALMA-UK (Archives Libraries Museums Alliance), fod gwariant ymwelydd llyfrgell ar gyfartaledd mewn siopau a chaffis lleol ayyb yn £8.07. Yn seiliedig ar y ffigwr hwn, mae Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad o bron i dair gwaith ei gost i'r economi stryd fawr lleol.

Mae cyfanswm buddsoddiad cyfalaf o £1,018,531 wedi ei wneud dros y tair blynedd diwethaf (gan gynnwys £120,000 o grant AAALI/MALD) ar ddiweddarau ac adnewyddu y llyfrgelloedd yn Ninbych, Llanelwy, Rhuddlan a'r Rhyl.

Ymgysylltu hefo'n cwsmeriaid

Rydym yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid yn ddyddiol wrth iddynt ymweld â'n llyfrgelloedd a siarad â staff, a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein gwasanaeth ac awgrymiadau ar gyfer gwella. Rydym yn cynnal arolwg cwsmeriaid o oedolion a phlant o leiaf unwaith bob tair blynedd (fel sy'n ofynnol gan Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru). Bydd ein Strategaeth Gwirfoddoli yn rhoi cyfle i bobl ymgysylltu yn fwy dwys â'r gwasanaeth trwy rannu eu hamser a'u sgiliau i gefnogi eu llyfrgell leol.

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Cyd-destun strategol

Mae llyfrgelloedd yn cyfrannu at bolisiâu a chynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol gan gynnwys:

Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych 2017-2022

Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018-2023

7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: Chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus **Cymru**

Mae Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol: chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20 Llywodraeth Cymru yn cynnwys 12 hawl craidd ac 16 o ddangosyddion ansawdd i fonitro pa mor dda y mae gwasanaethau llyfrgell yn gwireddu manteision i bobl leol. Mae'r fframwaith yn nodi'r cyfraniad clir y mae llyfrgelloedd yn ei wneud i saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy gyflawni'r canlyniadau a'r effeithiau canlynol i drigolion:

Bydd pobl yn gallu cynyddu eu gwybodaeth/sgiliau ar ôl defnyddio'r llyfrgell

Bydd pobl yn gallu cymryd rhan mewn darllen a digwyddiadau diwylliannol eraill a drefnir gan y gwasanaeth llyfrgell

Bydd pobl yn teimlo'n rhan o gymuned wrth ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgell

Bydd pobl yn gallu manteisio ar y cyfleoedd a gynigir yn y byd digidol gan ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgell

Mae iechyd a lles personol yn cael ei wella trwy ddefnyddio'r llyfrgell

Gall pobl gymryd rhan lawnach mewn materion lleol drwy'r cyfleusterau yn y llyfrgell

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Yn 2018-19, roedd Sir Ddinbych yn cyfarfod pob un o'r 12 hawl creiddiol. O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â tharged, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 8 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu cyflawni 1.

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Ein meysydd strategol allweddol

Mae bywydau pobl yn cael eu cyfoethogi a'u llywio gan ddarllen

Byddwn yn cefnogi hyn drwy:

Hyrwyddo Darllen er pleser a'i effaith ar les a chyrhaeddiad

Hyrwyddo Darllen ar gyfer gwybodaeth, dysgu a lles

Dewis, rheoli a darparu mynediad i lyfrau a gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffurfiau print a digidol

Darparu amrywiaeth o weithgareddau i annog a chefnogi hyn (grwpiau darllen, digwyddiadau, arddangosfeydd, gweithgareddau ymgysylltu)

Darparu gwasanaethau darllen teilwra i gynulleidfaoedd penodol megis plant a phobl ifanc (Dechrau Da, Sialens Ddarllen yr Haf, gweithio gydag ysgolion, gweithgareddau gwyliau) a phobl sy'n byw gyda chyflyrau iechyd neu anableddau (cynlluniau Darllen yn Well, ffurfiau print a digidol amgen, Gwasanaeth Llyfrgell Gartref)

Dyfyniadau

“Mae'r llyfrau llafar yr ydych wedi'u cyflwyno i mi yn hollol wych. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cartref wedi agor byd newydd i mi ac rydw i mor ddiolchgar ”

Cwsmer sy'n byw gyda cholled golwg

“Mae'n darparu ystod dda o wasanaethau gyda staff eithriadol, cynorthwyol a siriol.”

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Gall pobl gael gafael ar yr adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i fyw'n dda

Byddwn yn cefnogi hyn drwy

Darparu gwasanaethau wedi'u teilwra i gefnogi iechyd corfforol a meddyliol

Cynlluniau Darllen yn Well i ddarparu gwybodaeth am ddementia ac iechyd meddwl

Rhaglen Amser Rhigwm Dechrau Da i gefnogi iechyd meddwl mamau a datblygiad cymdeithasol ac ieithyddol babanod a phlant bach

Mynd i'r afael ag unigrwydd a chefnogi gwytnwch drwy

Presenoldeb corfforol mewn cymunedau

Mynediad digidol i ategu'r hygyrchedd corfforol y tu allan i oriau agor

Cyfleoedd cymdeithasol i ddod ynghyd

Gwasanaeth Llyfrgell Cartref i bobl fregus

Grwpiau darllen

Cynlluniau penodol (Ffrindiau Darllen, grwpiau darllen)

Dyfyniadau

“Ni allai ymdopi heb fynediad at lyfrau - rwy'n darllen llawer - ac mae'n helpu fy iechyd meddwl.”

“Ni ellid gwella'r llyfrgell. Staff yn rhagorol yma. Rydych chi bob amser yn helpu. Heb ddifaru diwrnod ers y 1960au pan ymunais i. Mae'r cyfan sydd angen i chi ei wybod ar gael yno.”

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Gall pobl ddefnyddio gwasanaethau digidol a meddu ar y sgiliau a'r hyder i wneud hynny

Byddwn yn cefnogi hyn drwy

Darparu mynediad ar-lein - mynediad am ddim i'r rhyngwyd, defnyddio cyfrifiaduron personol, sganwyr, cyfleusterau argraffu

Cynnig cefnogaeth a chymorth yn ôl yr angen

Darparu cyfleoedd dysgu i ddatblygu sgiliau, hyder a diogelwch, mewn partneriaeth â darparwyr dysgu

Cefnogi symudiad sianeli trwy gefnogi pobl i ddefnyddio sianelau digidol i gael mynediad at wasanaethau

Gweithio mewn partneriaeth â Sir Ddinbych yn Gweithio i sicrhau bod unigolion yn cael eu cefnogi i gyflogadwyedd

Datblygu cyfleoedd ar gyfer creadigrwydd digidol

Dyfyniadau

"Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn ddeniadol ac mae'n lle gwych i gyfarfod a dysgu pethau newydd neu leddfu unigrwydd"

"Rydw i eisiau dweud lle mor wych yw'r llyfrgell hon. Symudais i'r ardal flwyddyn yn ôl, a chefais noddfa yn y llyfrgell - gallu archebu llyfrau i mewn am ddim, cael cyngor defnyddiol, defnyddio'r siop un alwad a theimlo bod gen i wynebau cyfeillgar i'w gweld yn yr wythnos. Rydym bron wedi symud allan o'r dref ond roeddwn i eisiau aros i'r llyfrgell."

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Gall pobl gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau yn lleol

Byddwn yn cefnogi hyn drwy

Darparu gwasanaeth Siop Un Alwad ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor, gan ddelio ag ymholiadau cwsmeriaid, derbyn taliadau, a darparu gwybodaeth

Bod yn bwynt mynediad ym mhob cymuned i wybodaeth leol a chenedlaethol i gefnogi cyflogaeth unigolion, cymunedau, iechyd, lles a dysgu

Cefnogi unigolion i ddefnyddio sianelau digidol ar gyfer chwilio am swydd, cael mynediad i fudd-daliadau lles a gwasanaethau eraill y llywodraeth

Darparu amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth cyfredol, perthnasol a hygyrch, gan gynnwys llyfrau, cylchgronau a ffynonellau ar-lein

Galluogi sefydliadau partner i ddarparu eu gwasanaethau o lyfrgelloedd trwy gynnig cyfleusterau, gofod, ymwybyddiaeth a chefnogaeth

Archwilio cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau newydd wrth i'r galw a chyfleoedd godi

Dyfyniad

“Mae hon yn llyfrgell ardderchog oherwydd bod y staff yn wych. Nid oes dim yn ormod o drafferth Mae'n drysor yn y dref ac yn fan cyfarfod go iawn.”

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Gall pobl gymryd rhan mewn diwylliant lleol bywiog

Byddwn yn cefnogi hyn drwy

Darparu mynediad i gyfoeth o lyfrau ac adnoddau Cymraeg

Rheoli casgliadau o ddeunyddiau hanes lleol a darparu mynediad i adnoddau hanes teulu

Cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau fel lansio llyfrau, ymweliadau gan awduron, sgysiau a darlithoedd

Galluogi sefydliadau lleol i ddefnyddio cyfleusterau llyfrgell i gefnogi a hyrwyddo eu gweithgareddau

Dyfyniad

“Rwyf wrth fy modd yn dod â'm merch i sesiynau Dechrau Da. Fel siaradwr di-Gymraeg rwy'n teimlo ei bod yn bwysig i'm merch gael addysg Gymraeg ac mae'r sesiynau hyn yn ddechrau perffaith i fabanod. Mae'n bendant wedi fy ysbrydoli a'm hannog i roi hi mewn ysgol Gymraeg yn y dyfodol ac o bosibl i ddechrau dysgu Cymraeg fy hun. Mae'r sesiynau hyn wedi dechrau diddordeb fy merch mewn llyfrau. ”

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Sut byddwn yn cflawni'r canlyniadau hyn:

Sicrhau bod adeiladau ein llyfrgelloedd yn parhau i fod yn groesawgar, yn ddeniadol, yn addas at y diben, yn gynaliadwy, mewn lleoliadau da, ac ar agor ar adegau priodol

Ceisio cyfleoedd am arian i adnewyddu, moderneiddio a chadw adeiladau llyfrgell cynaliadwy nad ydynt wedi'u hadnewyddu yn ystod y 10 mlynedd diwethaf

Adnewyddu cyfleusterau wrth i dechnoleg ddatblygu a newid i ddiwallu anghenion cwsmeriaid

Parhau i archwilio opsiynau pellach ar gyfer cyd-leoli ac adleoli gwasanaethau

Adeiladu partneriaethau a chydweithio

Adeiladu ar y partneriaethau llwyddiannus presennol gyda Chyngor Dinas Llanelwy a Chyngor Tref Rhuddlan i ddatblygu a chynnal gwasanaethau llyfrgell mewn cymunedau lleol

Parhau i gydweithio yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan geisio cyfleoedd i sicrhau gwerth am arian a buddion i gwsmeriaid

Gweithio mewn partneriaeth â sectorau eraill i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol

Archwilio ffyrdd newydd o ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid

Rheoli ein casgliadau

Prynu llyfrau ac adnoddau newydd yn rheolaidd, gan wneud y gorau o'r arian sydd ar gael

Adolygu a golygu'r casgliadau i'w cadw'n ddeniadol, yn berthnasol ac yn ddefnyddiol

Cydweithio ag awdurdodau eraill i alluogi mynediad cwsmeriaid i'r ystod ehangaf o stoc

Hyfforddi ein staff i gefnogi anghenion darllen cwsmeriaid

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Sicrhau bod ein cynnig digidol yn ddeniadol, yn gyfredol ac yn hygyrch, gan ddarparu adnoddau perthnasol

Cynnal presenoldeb gwefan ddeniadol a llawn gwybodaeth i wasanaethu fel ffenestr siop rithwir i'n hystod o wasanaethau a chynnig

Bod yn rhan o gynnis cydweithredol Llyfrgell Ddigidol Cymru gyfan i sicrhau gwell gwerth am arian a mwy o ddewis i gwsmeriaid

Datblygu ein defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel sianel farchnata, gwybodaeth a chyfathrebu

Cyflogi gweithlu medrus a hyfforddedig

Galluogi staff i hyfforddi a datblygu sgiliau a gwybodaeth i gyflwyno gwasanaeth llyfrgell modern

Galluogi staff i ddilyn cymwysterau ffurfiol a chofrestru proffesiynol

Sicrhau lefel briodol o staff dwyieithog ym mhob llyfrgell

Creu strwythur staffio sy'n darparu llwybrau gyrfa posibl

Cefnogi gwirfoddolwyr

Darparu strategaeth sy'n cynnig cyfleoedd i wirfoddoli yn ein llyfrgelloedd i wella ein gwasanaeth, i ddatblygu sgiliau a hyder, i wella lles ac i gyfrannu at y gymuned

Annog defnydd a lleihau rhwystrau

Ceisio cyfleoedd i leihau unrhyw rwystrau go iawn neu dybiedig sy'n atal pobl rhag cael mynediad at eu llyfrgell leol a'i defnyddio

Ceisio sianelau newydd a ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o'r cynnig llyfrgell

Manteisio ar y potensial i bartneriaid eirioli dros ein gwasanaethau

Archwilio potensial gwasanaethau allgymorth, gan fynd â'r llyfrgell i'r gymuned

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Cynhyrchu incwm

Gyda phwysau parhaus ar y gyllideb, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i godi incwm drwy amrywiaeth o ddulliau megis gwerthu eitemau, adolygu taliadau, llogi ystafelloedd, codi tâl am ddigwyddiadau, gwneud cais am gyllid a chwilio am bartneriaethau pellach gyda chynghorau tref a chymuned.

Strategaeth Llyfrgell Sir Ddinbych 2019-22

Sut byddwn yn adrodd ar ein perfformiad a'n cynnydd?

Mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad blynyddol ar ein perfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru (IAALI). Mae IAALI yn dychwelyd adroddiad asesu blynyddol i'r Cyngor a chyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan IAALI a gwefan y Cyngor. Cyflwynir yr adroddiad asesu hwn i Bwyllgor Craffu Perfformiad y Cyngor yn flynyddol.

Mae perfformiad llyfrgelloedd yn erbyn y 7 Dangosydd Ansawdd o fewn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru hefyd yn cael ei fonitro o fewn fframwaith mesur perfformiad Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae Cynllun Busnes Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata yn nodi sut y bydd y gwasanaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cynnwys llawer o ddangosyddion, mesurau a gweithgareddau sy'n ymwneud â Llyfrgelloedd a Siopau Un Alwad. Adroddir ar y rhain yn chwarterol a'u monitro gan y Pennaeth Gwasanaeth ac Aelod Arweiniol y Cabinet.

Mae rheolwyr llyfrgell a gwasanaeth cwsmeriaid yn llunio adroddiadau chwarterol ar y gweithgaredd yn eu llyfrgell ac mae'r rhain yn cael eu rhannu â phartneriaid allweddol a'u cyhoeddi ar-lein.

Ein cynllun gwaith

Bob blwyddyn, byddwn yn cynllunio gweithgareddau newydd i'n helpu i gyflawni ein nodau strategol a chyfrannu at Gynllun Corfforaethol y Cyngor.